*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Mercher, 22ain Mehefin, 2022 am 1.00 pm**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel – Uned Busnes y Cyngor**
**(Rhif ffôn. 07385 086 169**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Llun, 20 Mehefin 2022. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2022 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 7 - 16)**

**3. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer 2022-23.

**(Tudalennau 17 - 38)**

**4. STRATEGAETH DDRAFFT Y CYNGOR – MYND I'R AFAEL Â NEWID YN YR HINSAWDD (2022-2025)**

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr sy'n galluogi'r Cabinet i drafod, adolygu a chymeradwyo ymateb y Cyngor i Newid yn yr Hinsawdd a Strategaeth y Cyngor ar gyfer Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd, "RhCT Hinsawdd Ystyriol", yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â thrigolion, partneriaid a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys staff.

**(Tudalennau 39 - 70)**

**5. RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU - CYNNIG I UNO YSGOL GYNRADD CEFN AC YSGOL GYNRADD CRAIG YR HESG I GREU YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL NEWYDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhannu deilliant yr hysbysiad statudol a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar mewn perthynas â'r cynnig i uno Ysgol Gynradd Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg â'r Aelodau.

**(Tudalennau 71 - 80)**

**6. ADOLYGU DARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU YN RHCT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad y gwaith diweddar o gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol ynglŷn â'r cynnig i aildrefnu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 81 - 88)**

**7. CYFRADD AD-DALU COSTAU FESUL MILLTIR AR GYFER STAFF Y CYNGOR**

Derbyn Adroddiad ar y Cyd gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol mewn perthynas â phennu cyfradd yr ad-daliad sy'n daladwy i weithwyr y Cyngor sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain at ddibenion gwaith.

**(Tudalennau 89 - 92)**

**8. GWASANAETH YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD IEUENCTID: TROSOLWG O GYLLID YCHWANEGOL 2020-2022**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi trosolwg i Aelodau'r Cabinet o'r cymorth ychwanegol y mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid wedi'i gynnig i bobl ifanc o ganlyniad i fuddsoddiad ychwanegol y Cyngor ers 2020.

**(Tudalennau 93 - 102)**

**9. ASESIAD O DDIGONOLRWYDD CYFLEOEDD CHWARAE**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran - Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn dilyn gwaith cyn y cam craffu a gafodd ei gynnal gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc yn ystod ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2022 a cheisio caniatâd yr Aelodau i gyflwyno'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (PSA) a'r cynllun gweithredu i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2022, yn unol â rhwymedigaeth statudol y Cyngor yn rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Rheoliadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012.

**(Tudalennau 103 - 228)**

**10. GWYDNWCH BWYD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu'r cymorth a gynigir i drigolion sy'n wynebu tlodi bwyd, ac sy'n rhannu manylion y gwaith sydd wedi'i gynnal gyda phartneriaid i ddatblygu ymagwedd strategol mewn perthynas â diogeledd bwyd a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau Gwobr Efydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ynghyd â chynlluniau datblygu pellach.

**(Tudalennau 229 - 240)**

**11. WARDEN CYMUNEDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n ceisio caniatâd y Cabinet i gyflwyno gwasanaeth Warden Cymunedol newydd a fydd yn gweithredu ledled RhCT ac yn cefnogi'r Heddlu wrth sicrhau presenoldeb gweladwy, sy'n tawelu meddwl trigolion, yng nghanol ein trefi, parciau a chymunedau.

**(Tudalennau 241 - 246)**

**12. YMRWYMIAD Y CYNGOR I'R LLUOEDD ARFOG A CHOFEBION RHYFEL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth barhaus y mae'r Cyngor yn ei darparu i gymuned y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr ac sy'n amlinellu sut mae modd i'r Cyngor gynyddu'r ymrwymiad i'r rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, drwy ddarparu buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y Lluoedd Arfog, gan gynnwys Cofebion Rhyfel

**(Tudalennau 247 - 252)**

**13. CYNLLUN CREU LLEOEDD CANOL TREF PONTYPRIDD - ADBORTH YN DILYN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS A'R NEWYDDION DIWEDDARAF AM Y PROSIECT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu sy'n nodi prif ganlyniadau'r gwaith ymgynghori a gynhaliwyd mewn perthynas â Chynllun Creu Lleoedd Canol Tref Pontypridd (drafft) a'r syniadau cynnar ar gyfer ailddatblygu hen adeiladau M&S a Dorothy Perkins/Burtons;

**(Tudalennau 253 - 302)**

**14. STRATEGAETH (DDRAFFT) CYNGOR RHCT - COED, COETIROEDD A GWRYCHOEDD**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu sy'n rhoi cyfle i'r Cabinet drafod cynnwys y Strategaeth (Ddrafft) newydd sy'n ymwneud â Choed, Coetiroedd a Gwrychoedd yn RhCT a chytuno i ddefnyddio'r strategaeth ddrafft fel sylfaen er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn rhan o ymgynghoriad wyth wythnos i geisio barn rhagor o bobl.

**(Tudalennau 303 - 360)**

**15. CYNNIG I GYFLWYNO CAIS I'R GRONFA FFYNIANT BRO AR GYFER CWM CYNON**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Ffyniant a Datblygu sy'n cynnig crynodeb o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth San Steffan (Cam 2) a'r bwriad i gyflwyno cais ar gyfer safle'r hen ffatri ieir, Trecynon, sydd yn Etholaeth Seneddol Cwm Cynon.

**(Tudalennau 361 -**

**370)**

**16. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd er gwybodaeth

**(Tudalennau 371 - 396)**

**17. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff *** o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**18. RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU (RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF YN FLAENOROL) - CWBLHAU'R AGWEDD ARIANNOL AR GYFER PROSIECT BRAENARU MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL**

Derbyn adroddiad ar y cyd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol mewn perthynas â Rhaglen Ariannu Model Buddsoddi Cydfuddiannol - Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru (Rhaglen Ysgolion yr $21^{ain}$ Ganrif - Band B yn flaenorol).

**(Tudalennau 397 - 1220)**

**19. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol